

Eich gwybodaeth bersonol: eich hawliau

Cyflwyniad

Rydym yn cadw gwybodaeth ynghylch y bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Mae hyn yn golygu os ydych yn gweld gweithiwr cymdeithasol/gweithiwr gofal neu os ydym yn eich cefnogi mewn unrhyw ffordd, byddwn yn cadw gwybodaeth ynghylch y cymorth yr ydym yn ei rhoi i chi.

Weithiau, mae angen i ni gadw gwybodaeth am bobl sydd ddim yn derbyn gwasanaethau yn uniongyrchol gennym, ond sydd yn adnabod, neu sydd â chysylltiad â phobl sydd yn derbyn gwasanaeth.

Rydym yn cadw'r cofnodion hyn ar gyfrifiadur ac ar bapur mewn ffeil. Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn dweud fod gennych hawl i weld unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chadw amdanoch.

Mae'r ffeithlen hon yn esbonio pa fath o wybodaeth yr ydym yn debygol o gadw a sut y gallwch fynd ati i weld yr hyn a gedwir.

Paham ydych chi'n cadw gwybodaeth amdanaf?

Gofynnwn i chi am wybodaeth i'n helpu i ddarparu'r gwasanaethau cymorth sydd angen arnoch ar yr adeg pan fyddwch eu hangen.

Mae angen gwybodaeth fel enwau a chyfeiriadau aelodau eich teulu, meddygon ac ati er mwyn i ni wybod pwy i gysylltu â nhw pe bai angen.

Mae hefyd angen i ni gadw cofnodion am y math o gymorth sydd angen arnoch rhag ofn na fydd eich gweithiwr cymorth arferol yn medru ymweld â chi, er mwyn galluogi rhywun arall i gamu i mewn.

Beth am gyfrinachedd?

Rydym yn cadw gwybodaeth am lawer o bobl. Mae hyn yn rhan o'n gwaith dyddiol, yn union fel y byddai eich meddyg neu eich banc yn ei wneud. Rydym yn ofalus iawn, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth sydd gennym (a all fod yn bersonol iawn) yn cael ei chadw'n ddiogel.

A fydd fy ngwybodaeth yn cael ei rhannu?

Weithiau, er mwyn darparu'r gefnogaeth briodol ar eich cyfer, mae angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch gydag eraill, fel gweithwyr ieuchyd. Mae gennym reolau llym y mae'n rhaid eu dilyn cyn i ni fedru gwneud hyn.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag eraill onid ydym yn cael eich caniatâd i wneud hynny, neu heblaw bod yna amgylchiadau arbennig cyfyngedig, ee mewn argyfwng, er lles y cyhoedd neu os oes yna ddyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny.

Gallwn hefyd rhannu eich gwybodaeth os ydych chi, neu berson arall mewn perygl o gael niwed. Mewn sefyllfa fel hon, byddem yn cynnal asesiad risg gyda gweithwyr proffesiynol eraill – byddech yn derbyn copi ohono.

Sut ydwi i'n trefnu i weld fy ngwybodaeth?

Gallwch ofyn i'r bobl sydd fel arfer yn gweithio gyda chi. Os yw'n well gennych, gallwch gysylltu â ni yn uniongyrchol.

Mae'n ddyletswydd arnom i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel, felly mae'n bosib y byddwn yn holi ychydig o gwestiynau cyn i ni fedru ei rhyddhau. Gallwch hefyd ofyn i berthynas neu weithiwr proffesiynol arall gysylltu â ni ar eich rhan - byddai angen i ni sicrhau eich bod wedi rhoi caniatâd iddynt yn gyntaf.

Gallaf weld popeth sydd ar fy ffeil?

Yn gyffredinol, mae gennych hawl i weld yr hyn sydd wedi ei ysgrifennu amdano. Mae gennych hawl i weld yr wybodaeth a gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn datgan fodd bynnag y gellir eich atal rhag gweld peth gwybodaeth ar eich cofnod ee gwybodaeth am berson arall, neu os yw'r wybodaeth yn debygol o achosi niwed difrifol i rhywun.

Ni allwn fel arfer ddangos gwybodaeth i chi gan fudiadau eraill, ee eich meddyg. Os hoffech weld yr wybodaeth honno, mae angen i chi gysylltu'n uniongyrchol a'r mudiad hwnnw.

Helpwch ni i wneud pethau'n iawn

Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio â'ch ymholiad, a fydddech cystal â rhoi gwybod i ni.

Rydym yn croesawu cwynion a sylwadau gan eu bod yn ein helpu i wneud pethau'n iawn yn y dyfodol.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y daflen, *Cwynion: Sut i gael eich clywed.*

Ein manylion cyswllt

Os oes angen gwybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â ni.

Ffôn: 01495 762200

E-bost:

socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

Ein Cyfeiriad:

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen

Y Ganolfan Ddinesig

Pont-y-pŵl

Torfaen NP4 6YB

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni er mwyn trefnu hyn.